

**Ffurflen ymateb i ymgynghoriad:
EIRIOLAETH BROFFESIYNOL ANNIBYNNOL - FFRAMWAITH
SAFONAU A CHANLYNIADAU CENEDLAETHOL AR GYFER PLANT
A PHOBL IFANC YNG NGHYMURU**

Eich enw:

Hilary Watson

Corff (os yw'n
gymwys)

Cymorth i Ferched Cymru

ebost/rhif ffôn:

HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk
02920 541 551

Cyfeiriad

Tŷ Pendragon,
Plas Caxton
Pentwyn
Caerdydd
CF23 8XE

Mae'n debyg y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch y blwch yma:

Os ydych yn ymateb ar ran eich sefydliad, ticiwch yma:

X

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 31 Mawrth 2017 tan hanner nos ar 23 Mehefin 2017. Anfonwch eich ymateb atom erbyn y dyddiad cau sef 23 Mehefin /2017.

Gellir ymateb fel unigolyn neu grŵp. Nid oes rhaid ateb yr holl gwestiynau os nad ydych yn dymuno gwneud; mae croeso i chi ateb y cwestiynau sy'n berthnasol i chi yn unig a pharhau â'ch atebion ar ddalenni ychwanegol os oes angen.

Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff aelodaeth ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth i 26 o wasanaethau arbenigol annibynnol trydydd sector ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol).¹ Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU.

Ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr dan arweiniad anghenion, yn ymateb i rywedd ac sy'n gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac ymarfer cymunedol yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cyngori a chynorthwyo comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth iddynt ddatblygu asesiadau angen a chynlluniau strategol ar gyfer VAWDASV, gan hyrwyddo tystiolaeth am fodolau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau niferus rydym ni'n eu cyflenwi i aelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod-wasanaethau â pholisi perthnasol, datblygiadau deddfwriaethol a strategol ac annog cyd-gynhyrchu o ran datblygu gwasanaeth; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflenwi ymarfer addawol yn y sector; darparu cefnogaeth gyda materion polisi, ac adroddiadau dadansoddi data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau strategaeth a chomisiynu datblygiadau.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae Plant yn Cyfri sydd, er enghraifft yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin a chyflenwi rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota prosiect ymgysylltu â goroeswyr i helpu i wella ymatebion asiantaethau i gam-drin (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddylanwadu a llywio gwasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau'r cyhoedd a'r gymuned.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru; fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU.

¹ Ein haelodaeth o 27 o wasanaethau arbenigol trydydd sector VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynu a'i integreiddio: *Aberconwy DAS, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, BAWSO, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Stepping Stones, New Pathways, Merthyr Tudful Diogelach, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cymorth i Ferched Cyfannol, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndŵr, Gorwel (Grwp Cynefin), Hafan Cymru, Llamau, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, Cymorth i Ferched Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Ferched RCT, Cymru Ddiogelach gan gynnwys Prosiect Dyn, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold (Cymorth i Ferched Llanelli yn flaenorol), Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Trais ac Ymosodiadau Rhyw Gogledd Cymru,*

1. A fydd y fframwaith hwn yn helpu darparwyr eiriolaeth a chomisiynwyr eiriolaeth i sicrhau ansawdd cyson eu gwasanaeth ar draws Cymru?		
Bydd <input checked="" type="checkbox"/>	Na fydd <input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr <input type="checkbox"/>
Sylwadau:		
<p>Mae'r canllawiau'n mynd peth o'r ffordd i sicrhau ansawdd cyson darparwyr eiriolaeth a chomisiynwyr eiriolaeth i blant a phobl ifanc er mwyn cyflenwi gwasanaethau ar draws Cymru. Ceir canllawiau sicrhau ansawdd clir mewn sawl ardal i gyflawni'r safonau gofynnol. Er bod y gofyniad ar gomisiynwyr a darparwyr eiriolaeth i gyfarfod yn chwarterol ac adrodd yn flynyddol ar y safonau eiriolaeth yn galonogol, mae angen monitro hyn ac mae angen sicrhau goblygiadau os na chaiff y safon ansawdd ei bodloni, neu byddai'r fframwaith yn gwneud dim mwy nag arwyddo'r safonau ansawdd yn hytrach na sicrhau bod y safonau'n cael eu cyflenwi. Mae angen i gomisiynwyr fod yn ymwybodol o'r hyn y dylai gwasanaethau eiriolaeth ansawdd uchel fod ac mae angen i'r canlyniadau a'r monitro yn y fframwaith amlinellu hyn. Yn ogystal, bydd angen sicrhau bod comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau eiriolaeth yn cael cyllid ychwanegol gan fod y fframwaith yn gosod disgwyliadau newydd ar y gwasanaethau.</p> <p>Mae Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn ffurfio set o feini prawf achrededig y gall gwasanaethau penodol sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) dystio i ansawdd eu darpariaeth. Rydym yn bryderus nad oes arwydd o'r ffordd y bydd y safonau cenedlaethol Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol hyn yn cysylltu â dangosyddion y sector arbenigol VAWDASV a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - 2016-2021.</p> <p>Mae angen ystyried sut y bydd y safonau hyn yn cysylltu â'r canllawiau comisiynu statudol ar VAWDASV ac a fydd y canllawiau terfynol yn cydnabod hawliau plant a phobl ifanc a effeithir gan eu profiadau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i fanteisio ar eiriolaeth broffesiynol wrth hawlio eu hawliau fel plant mewn angen neu yn y system gofal. Mae angen eglurder a fyddai modd comisiynu gwasanaethau arbenigol VAWDASV i ddarparu'r eiriolaeth hon i blant a phobl ifanc a effeithir gan gam-drin.</p>		
2. A fydd y fframwaith hwn yn helpu i gyflenwi dealltwriaeth glir o'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n eu defnyddio, a thrwy hynny wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau?		
Bydd <input checked="" type="checkbox"/>	Na fydd <input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr <input type="checkbox"/>
Sylwadau:		
<p>Mae eiriolaeth ansawdd uchel sydd ar gael yn rhwydd i blant sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol yn bwysig iawn gan fod teimladau a dymuniadau'r plant eu hunain yn aml yn cael eu hanwybyddu. Cafwyd cynnydd sylweddol yng nghostau gwasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd yn y blynyddoedd diweddar². Gallai hyn gael effaith ddilynol sef lleihau'r amser sydd gan weithwyr cymdeithasol i'w dreulio</p>		

² M. Jeffs, 'Future Pressures on Welsh Public Services: Financial, demand and other cost pressures to 2025 and a review of potential response – Summary Report', *Wales Public Services*, 2013, pp. 7.

gyda chleientiaid, gan gynnwys plant. Yn ogystal, cafwyd cynnydd o dros draean yn y nifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol rhwng 2003-2012, a disgwylir i'r nifer godi ymhellach³, felly dyw'r angen am wasanaeth eiriolaeth o ansawdd uchel ddim erioed wedi bod mor arwyddocaol. Mae'r canllawiau sy'n addas i blant (a'r ymgynghoriad) yn ddogfen i'w chrosawu. Mae'r ddau fframwaith yn amlinellu sut y dylai gwasanaeth eiriolaeth ansawdd uchel edrych a beth y gall plant ei wneud os oes angen iddynt wneud cwyn neu roi adborth i gomisiynwyr. Bydd cyfleu'r gwasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc ar yr adeg gywir yn hanfodol os yw'r fframwaith yn mynd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae'r fframwaith yn eithaf amwys am sut y dylid gwneud hyn ac nid yw llinell gymorth MEIC yn cael ei chrybwyll yn y fframwaith ei hun, er ei bod yn cael ei henwi yn y canllawiau 'Cynnig Gweithredol'.

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru weld IPASs yn gweithio gyda'r llinell gymorth ddwyieithog 24/7 Byw Heb Ofn, sy'n cynnwys gwasanaeth sgwrsio gwe. Dylid hyrwyddo hyn ar bob cyfle, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n dioddef effaith pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu cael gwybodaeth a chymorth. Dylid nodi hefyd yn y canllawiau bod gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys eiriolwyr, yn gallu defnyddio Llinell Gymorth Byw Heb Ofn eu hunain i gael cyngor a dealltwriaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i gynorthwyo eu gwaith a'u dealltwriaeth o brofiadau unigol eu cleientiaid.

3. A fydd y fframwaith hwn yn helpu'r rheini sy'n comisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol broffesiynol i sicrhau ansawdd eu trefniadau comisiynu a chynnig modd i gyflwyno tystiolaeth o ddarpariaeth eiriolaeth ansawdd uchel ac effeithiol?

Bydd **Na fydd** **Ddim yn siŵr**

Os na, nodwch:

Mae'r gofynion ar i'r gwasanaethau eiriolaeth a'r comisiynwyr adolygu eu harferion yn unol â'r safonau bob chwarter ac adrodd yn flynyddol yn gam cadarnhaol at sicrhau bod safonau ansawdd uchel yn cael eu cyflawni. Yn sicr, bydd yr arweiniad yn galluogi comisiynwyr a gwasanaethau eiriolaeth i'w dal ei gilydd i gyfrif i raddau. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau peidio â chyflawni darpariaeth eiriolaeth ansawdd uchel ac effeithiol yn cael eu trafod, er gwaetha'r ffaith fod y mater yn hollbwysig i sicrhau canlyniadau effeithiol.

Mae'r fframwaith yn cynnig sail ar gyfer edrych ar y safonau sy'n ddisgwylidiedig gan wasanaeth eiriolaeth i blant, ond nid yw'n glir sut y byddai'r safonau hyn yn rhyngweithio gyda safonau ansawdd eraill, er enghraifft rheini'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig ac sy'n arbenigol i'r sector gan gynnwys y Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol i wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod a achredir drwy Cymorth i Ferched Cymru. Caiff gwasanaethau eiriolaeth arbenigol i blant sydd wedi profi neu weld trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a/neu drais rhywiol eu hachredu dan y Safonau Cenedlaethol.

³ M. Jeffs, 'Future Pressures on Welsh Public Services: Financial, demand and other cost pressures to 2025 and a review of potential response – full report', *Wales Public Services*, 2013, pp. 27.

Mae'r fframwaith yn mesur ansawdd fel "gallu ymateb heb oedi" ond dylai gwasanaethau sicrhau nad yw pwysau i wneud hyn yn tanseilio ansawdd yr eiriolaeth a ddarperir. Mae angen cyllid hefyd i sicrhau bod hyn yn gallu digwydd, a'i fod yn digwydd. Nid yw'n glir beth mae 'ymateb' yn ei olygu. Er enghraifft, gallai ymateb olygu bod plentyn neu berson ifanc yn gorfod 'aros' am eiriolaeth, ac os felly, mae angen ystyried a oes cymorth digonol i unigolion a allai orfod aros am gymorth eiriolaeth.

Mae cael isafswm safon ddisgwyliedig ar gyfer hyfforddi eiriolwyr yn bwysig a bydd yn annog gwasanaethau i sicrhau eu bod yn cynnig hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell er mwyn darparu eiriolaeth ansawdd uchel a phriodol i'r holl blant a phobl ifanc, bod hyfforddiant eiriolwyr hefyd yn cysylltu â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn ac ymateb priodol i blant y mae'r materion hyn wedi effeithio arnynt.

Drwy'r Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol, gall Cymorth i Ferched Cymru ddarparu hyn drwy weithio gyda darparwyr hyfforddiant eiriolaeth. Bydd hyn nid yn unig yn galluogi gweithrediad effeithiol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond bydd hefyd yn hyrwyddo uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Er mwyn galluogi i'r holl ddarnau arloesol hyn o ddeddfwriaeth gyflawni eu potensial, rhaid peidio â gosod eu gweithrediad mewn silos, ond yn hytrach eu cydblethu. Mae'r canllawiau sydd dan ymgynghoriad yn hyrwyddo'n glir y nodau llesiant i sicrhau Cymru fwy cydradd, gwydn ac iach, â'r nod o sicrhau bod y gwasanaethau eiriolaeth sydd eisoes yn dda ar gael i bob plentyn a pherson ifanc.

Mae gan Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - 2016-2021 ddau amcan hynod o berthnasol:

Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr [trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol];⁴

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr [trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol] at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd.⁵

Gall Cymorth i Ferched Cymru hwyluso uno'r ddau amcan o fewn cyd-destun plant a phobl ifanc yn derbyn gwasanaethau eiriolaeth priodol, drwy gynnig hyfforddiant arbenigol i staff eiriolaeth a chodi ymwybyddiaeth o berthnasedd hyn mewn Awdurdodau Lleol drwy 'Gofyn a Gweithredu' drwy'r Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol (a hwylusir gan Cymorth i Ferched Cymru) a thrwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, fel rhan o weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

⁴ *Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021*, Llywodraeth Cymru, 2016, pp. 23.

⁵ *Ibid.*

4. Ydych chi'n meddwl y bydd cynnig gweithredol o gymorth eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hysbysu'n dda am yr eiriolaeth sydd ar gael ac yn fwy abl i fanteisio ar y gwasanaeth pan fydd ei angen?

Nodwch:

Ydym. Mae llawer o blant a phobl ifanc fregus ar hyn o bryd nad ydynt yn gwybod beth yw eiriolwr na sut i gysylltu ag un. Byddai'r cynnig gweithredol yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall rôl eiriolwr a gwneud dewis gwybodus am ddefnyddio eiriolwr ai peidio. Gallai "cynnig gweithredol" hefyd gynnwys gwybodaeth bellach am y cymorth y gallent fanteisio arno ochr yn ochr â darpariaeth eiriolaeth, er enghraifft gwasanaethau arbenigol lleol neu'r llinell gymorth Byw Heb Ofn, am gymorth yn gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ogystal â thrwy linell gymorth MEIC sy'n darparu gwybodaeth i blant am eu gwasanaethau eiriolaeth lleol. Dylid gwneud y "cynnig gweithredol" yn rheolaidd, nid unwaith yn unig, gan fod anghenion plant yn gallu newid dros amser. Er bod hyn yn cael ei nodi yn yr atodiadau, mae angen ei fonitro'n ofalus, a dylid gwneud y "cynnig gweithredol" yn rheolaidd i'r plant a'r bobl ifanc hynny nad oes ganddynt eiriolwr ar hyn o bryd.

5. Ydych chi'n credu y bydd y fframwaith yn helpu i sicrhau y bydd y cynnig gweithredol o eiriolaeth yn cael ei gyflenwi'n gyson ac yn gydlynol ar draws Cymru?

Bydd **Na fydd** **Ddim yn siŵr**

Nodwch:

Dywed y canllawiau mai'r nod yw cyflenwi safonau cyson a chydlynol ar draws Cymru, er mwyn dileu loteri cod post sydd yn rhy aml yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth o bob math yng Nghymru. O ganlyniad i'r canllawiau, bydd gan awdurdodau lleol syniad cliriach o'r disgwyliadau statudol.

Fodd bynnag, nid oes arwyddion clir yn dangos sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni. Mae gan ardaloedd daearyddol gwahanol heriau ac adnoddau, gan gynnwys set sgiliau eiriolwyr. Er enghraifft, er mwyn cyflawni cysondeb a chydlyniad ar draws Cymru, bydd angen i wasanaethau eiriolaeth allu cefnogi plant a phobli ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol neu ofynion iaith (boed Gymraeg neu un o'r mamieithoedd lleiafrifol niferus a siaredir yn ein hysgolion, colegau a chymunedau ehangach) yn gyflym, beth bynnag eu lleoliad daearyddol neu ardal Awdurdod Lleol. Mae ymrwymiad o'r fath yn golygu buddsoddiad, ond mae hefyd yn bwysig bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar eu hawliau, fel y'i nodwyd yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae dibynnu ar berthnasau neu rywun nad yw'n amhleidiol ac yn gysylltiedig â'r plentyn yn amhriodol ac yn tanseilio cyfrinachedd y berthynas rhwng yr eiriolwr a'r plentyn yn llwyr, ac yn cynnig datrysiad anaddas i broblem adnoddau. Gweler er enghraifft, Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021: "Ymwneud gan aelodau o'r teulu o ran cyfieithu ar y pryd a rhoi cymorth i gael mynediad at wasanaethau sy'n mynd yn groes i ddiben cyfrinachedd ac yn cynyddu risgiau o niwed."⁶

⁶ *Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021*, Llywodraeth Cymru, 2016, pp. 17.

Mae angen gwneud y "cynnig gweithredol" mewn modd priodol i bob plentyn. Dylid ei wneud mewn amgylchedd diogel, mewn modd nad yw'n sbarduno trallod emosiynol, i ffwrdd oddi wrth eraill a allai fod yn destun y cwyn, gan staff gwybodus sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd â gwybodaeth ddigonol i gynnig datrysiadau, atgyfeiriadau ac i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei gredu a'i gefnogi. Os nad yw hyn yn cael ei wneud yn briodol, mae'r "cynnig gweithredol" yn troi'n docenistaidd ac yn niweidiol i'r plentyn neu'r person ifanc. Rhaid hefyd iddo fod yn benodol i oed a'i addasu i anghenion penodol y plentyn, yn enwedig os oes gan y plentyn anghenion cymhleth. Er y bydd goblygiadau i hyn o ran adnoddau, mae'n hanfodol fod y system yn deg, yn effeithlon ac yn gyfartal.

6. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Nodweddion gwarchoddedig yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a thueddfryd rhywiol. Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Os felly, pa rai a pham/pam lai?

Ydym	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydym	<input type="checkbox"/>
-------------	-------------------------------------	-----------------	--------------------------

Nodwch:

Mae'r canllawiau'n cydnabod bod angen darpariaethau penodol er mwyn i blant a phobl ifanc â nodweddion gwarchoddedig fanteisio ar eiriolaeth. Mae hwn yn ymrwymiad i'w groesawu ond er mwyn i'r canllawiau gael effaith gadarnhaol yn gyson ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig ar draws Cymru gyfan, rhaid rhoi adnoddau digonol ym mhob ardal, gyda gofal arbennig i beidio â chreu loteri cod post o wasanaethau ansawdd uchel. Gallai'r gofynion ar i'r gwasanaethau barchu anghenion ieithyddol, diwylliannol a chrefyddol fod yn ddim mwy na dyhead os na ddyrennir cyllid a hyfforddiant ychwanegol i'r gwasanaethau. Yn hytrach, er mwyn cyflenwi gwasanaeth ansawdd uchel, mae angen gweithio gyda gwasanaethau Du a lleiafrifol ethnig sydd ag arbenigedd mewn cyflenwi ar gyfer cymunedau penodol.

Disgwylir i'r gwasanaethau gefnogi plant anabl ag anghenion cyfathrebu. Gallai fod angen hyfforddiant a chyllid ychwanegol i sicrhau bod hyn yn gallu digwydd. Gellid datblygu rhai gwasanaethau eiriolaeth arbenigol yn genedlaethol i'r gwasanaethau lleol eu prynu pan fo angen, er enghraifft gallai gwasanaethau i blant â nam ar y clyw gynnig gwasanaethau eiriolaeth yn genedlaethol, er mwyn galluogi cyflenwi ansawdd uchel waeth ble mae'r plant a phobl ifanc wedi'u lleoli.

Mae'r fframwaith yn crybwyll yn benodol strategaeth allgymorth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol - gallai hyn o bosibl fod o fudd i bobl ifanc na fyddent fel arall yn manteisio ar eiriolaeth. Nid yw'n glir fodd bynnag pa grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylid cydnabod tangynrychiolaeth rhyngadrannol a diffyg darpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o bobl hefyd. Er enghraifft mae grwpiau BME yng Nghymru eisoes yn wynebu rhwystrau at gyrchu cymorth o ganlyniad i danariannu gwasanaethau arbenigol BME, sy'n niweidiol i blant a phobl ifanc. Ymhlith yr anghenion cymorth a allai fod ganddynt, a allai olygu bod angen eiriolaeth broffesiynol, mae anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd' ac mae angen darparu cymorth gan wasanaethau arbenigol gydag

arbenigedd yn y meysydd hynny ac mewn gwaith ymgysylltu cymunedol. Mae cael rhwydwaith cenedlaethol o eiriolwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau arbenigol BME yn ffordd i fodloni'r angen am gymorth ochr yn ochr â darparu eiriolaeth broffesiynol.

Mae'n bwysig fod yr holl wasanaethau eiriolaeth yn ymateb yn ôl rhywedd, gan fod anghenion a phrofiad plant a phobl ifanc gwrywaidd a benywaidd yn wahanol. Mae anghydraddoldeb o ran rhywedd yn effeithio ar bob aelod o gymdeithas a dylid cydnabod a deall y ffordd mae'n effeithio ar y rheini ar sail rhyw a nodweddion gwarchoddedig trawsadrannol eraill. Dylai Safon 3 adlewyrchu'r holl nodweddion gwarchoddedig cydnabyddedig, gan gynnwys rhyw, crefydd a chred, a beichiogrwydd, sydd ar hyn o bryd wedi'u heithrio o eiriad Safon 3.

7. Hoffem wybod eich barn ar yr effaith fyddai'r canllawiau'n ei gael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Pa effaith ydych chi'n meddwl fyddai'n bodoli? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Nodwch:

Dylid gofyn i blant a phobl ifanc ar y cyswllt cyntaf pa iaith fydden nhw'n ei ffafrio ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth. Mae darparu adnoddau cwbl ddwyieithog a chynnig cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn bwysig, oherwydd dylai pawb gael cynnig dewis i siarad yr iaith sy'n fwyaf cyfforddus iddynt, sy'n cynnwys gwasanaethau ffôn/peiriant ateb amlieithog. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd natur anodd a sensitif trafodaethau rhwng y plentyn/person ifanc a'r eiriolwr neu'r gwasanaeth eiriolaeth. Mae rhai plant yn fwy rhugl yn cyfathrebu yn Gymraeg a/neu gallent ddewis defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cyflawni'r nod o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae angen sicrhau adnoddau digonol er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael cynnig siarad Cymraeg ac am bob plentyn sy'n dewis y Gymraeg, dylai'r gwasanaeth fod ar gael iddynt yn yr iaith honno. Rhaid i hyn fod yn wir ar draws Cymru. Mae cyflawni hyn yn golygu arian ac amser i'r gwasanaethau eiriolaeth ddatblygu adnoddau yn Gymraeg a Saesneg, a recriwtio a hyfforddi staff dwyieithog.

Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn yn wasanaeth dwyieithog 24/7, ac yn adnodd rhagorol i siaradwyr Cymraeg a Saesneg ac mae hefyd yn cefnogi galwyr drwy Linell Iaith a ffyrdd eraill i gynnig gwasanaeth hygyrch amlieithog. Dylid hyrwyddo llinell gymorth Byw Heb Ofn yn fwy penodol yn y fframwaith.

8. Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion eraill nad ydym ni wedi'u codi'n benodol, defnyddiwch y gofod isod i ddweud wrthym ni amdanynt

Nid yw'n glir a yw pobl ifanc dros 18 oed ond sydd yn dal yn y system gofal wedi'u cynnwys yn y canllawiau. Os nad ydynt, gan fod plentyn yn cael ei ddiffinio yn 0-18 oed, dylid egluro beth sy'n digwydd i unigolion ar ôl eu pen-blwydd yn ddeunaw. Mae

angen gosod ymagwedd briodol a chydlynol yn y canllawiau er mwyn sicrhau nad yw anghenion yr unigolion hyn yn syrthio rhwng y craciau o ganlyniad i basio pen-blwydd penodol os oes angen cymorth eiriolaeth arnynt o hyd. Gellid ymdrin â hyn drwy drefniadau pontio a thrwy benodi gweithwyr pontio i gefnogi pobl ifanc sy'n symud o ddarpariaethau plant i ddarpariaethau oedolion rhwng 18 a 25 oed. Defnyddir y model hwn mewn rhai ardaloedd penodol, fel Bryste, i gefnogi gwasanaethau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Mae'n debyg y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch y blwch yma: